OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 1992

# Gorchymyn Defaid a Geifr (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2015

## RHAN 7

## Cofrestri daliadau

**Cofrestr y daliad**

**23.**—(1) Cyflawnir trosedd os yw ceidwad, ac eithrio cludwr, yn methu â chydymffurfio ag Erthygl 5(1), (3) a (5) o Reoliad y Cyngor.

(2) Pan symudir anifail i'w ddaliad neu ohono, rhaid i'r ceidwad gofnodi—

(a) yr wybodaeth sy'n ofynnol gan Adran B o'r Atodiad i Reoliad y Cyngor; a

(b) nifer yr anifeiliaid a symudwyd.

(3) Rhaid i'r wybodaeth y cyfeirir ati ym mharagraff (2) mewn cysylltiad ag anifeiliaid a symudir i ddaliad gael ei chofnodi gan y ceidwad gyda chofnod yn y gofrestr ond, fel dewis arall, caniateir i god adnabod unigol pob anifail gael ei gofnodi drwy gadw copi deublyg neu gopi ardystiedig o'r dogfennau symud yn nhrefn eu dyddiadau a chroesgyfeirio'r rheini â'r cofnodion symud perthnasol yng nghofrestr y daliad.

(4) Rhaid i'r wybodaeth y cyfeirir ati ym mharagraff (2) mewn cysylltiad ag anifeiliaid a symudir o ddaliad gael ei chofnodi gan y ceidwad drwy naill ai—

(a) ei chofnodi yn y gofrestr; neu

(b) cadw copi deublyg neu gopi ardystiedig o'r ddogfen symud a chadw'r copi deublyg neu'r copi ardystiedig hwnnw gyda'r gofrestr yn eu trefn gronolegol ar y cyd ag unrhyw ddogfennau symud eraill a gedwir.

(5) Cyflawnir trosedd os cedwir y gofrestr mewn ffurf ac eithrio ffurf a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru.

(6) Rhaid i'r ceidwad lenwi'r gofrestr—

(a) yn achos symud anifail i ddaliad neu ohono ac eithrio drwy bwynt cofnodi canolog, o fewn 36 awr ar ôl ei symud;

(b) yn achos symud anifail i ddaliad neu ohono drwy bwynt cofnodi canolog, o fewn 48 awr ar ôl ei symud;

(c) yn achos amnewid marc adnabod, o fewn 36 awr ar ôl ei amnewid;

(d) yn achos cod adnabod anifail, blwyddyn ei eni, dyddiad ei adnabod ac, os yw'n hysbys, ei frîd a'i genoteip, o fewn 36 awr ar ôl ei adnabod;

(e) yn achos marwolaeth anifail, o fewn 36 awr ar ôl darganfod ei farwolaeth.

(7) Pan fo'r ceidwad yn symud ei anifeiliaid i ddaliad arall ac yntau'n parhau yn geidwad yr anifeiliaid, nid oes rhaid iddo gadw'r gofrestr ar y daliad arall hwnnw ond rhaid iddo allu dangos y gofrestr o fewn amser rhesymol i Weinidogion Cymru pan ofynnir amdani.

(8) At ddibenion Erthygl 5(3) o Reoliad y Cyngor, y cyfnod pan fo rhaid sicrhau bod y gofrestr, gan gynnwys y copïau deublyg neu'r copïau ardystiedig o'r dogfennau symud os cânt eu cadw yn unol â pharagraff (4)(b), ar gael yw tair blynedd o'r diwrnod olaf y bydd anifail y cyfeirir ato yn y ddogfen naill ai'n marw neu'n ymadael â'r daliad.

(9) Pan ailadnabyddir anifail rhaid i'r ceidwad gofnodi dyddiad ei ailadnabod yn y gofrestr.